Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Mehefin 2008

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU'R TAFOD GLAS (DIWYGIO) (CYMRU) 2008

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn cael dod â Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 i rym yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud ar a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2008 a byddant yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 er mwyn sicrhau bod gwall technegol yn cael ei gywiro i alluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi trwydded i bersonau gael cyflenwad o frechlyn oddi wrth gyfanwerthwyr a gwneuthurwyr a awdurdodwyd o dan Reoliadau Meddyginiaethol Milfeddygol 2007. Petasai'n angenrheidiol i ddechrau'r brechu cyn y Rheoliadau hyn buasai angen arfer y pwerau angenrheidiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ran Gweinidogion Cymru.

Ers ymddangosiad y Tafod Glas seroteip 8 (BTV-8) yng ngogledd Ewrop (ac erbyn hyn mewn rhai rhannau o Loegr) mae'r gwaith o reoli'r clefyd wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngiadau symud. Fodd bynnag, hyd yn oed petai'r cyfyngiadau hyn yn cael eu gweithredu'n llym ni fyddai hynny'n gwarantu na fyddai'r clefyd yn lledu am nad oes modd rheoli'r gwybed sy'n cario'r clefyd. O'r herwydd, gallai gweithredu rhaglen frechu leihau lledaeniad haint y Tafod Glas yn sylweddol a chyfyngu ar faint yr ardal lle y ceir achosion ohoni, gan gyfrannu i'r gwaith o'i reoli a'i ddileu o bosibl, ac atal colledion wrth gyfyngu ar effaith clefydau clinigol.

Mae angen i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi'r pwerau angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi trwydded i bersonau gael brechlyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Gohebiaeth.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) *Printed on 100% recycled paper*

Cynllunnir i raglen frechu dan reolaeth ddechrau cyn gynted ag y bo cyflenwad o frechlyn ar gael sy'n galluogi ffermwyr i warchod eu hanifeiliaid rhag y clefyd. Bryd hynny, datgenir Parth Gwarchod gan fod deddfwriaeth Ewropeaidd yn darparu na all gwaith brechu ddigwydd ond mewn Parth Gwarchod. Disgwylir y bydd rhagor o frechlyn ar gael yn ystod yr haf ac felly y mae angen darpariaeth ddeddfwriaethol i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi trwydded. Am y rhesymau hyn, argymhellir torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau allu ddod i rym ar 19 Mehefin 2008.

Oherwydd bod diwygio'r Rheoliadau yn fater technegol yn unig ac oherwydd prinder amser, nid oes ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cynnal ar y Rheoliadau hyn. Serch hynny, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn a'r Rheoliadau wedi cael eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir